# Fire**Safety**
## in High Rise Flats



**THIS LEAFLET CONTAINS IMPORTANT ADVICE PLEASE READ CAREFULLY**

**It is for your safety and tells you ways to make sure you are SAFE in your flat**

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

Please keep for future reference

# THIS LEAFLET CONTAINS IMPORTANT ADVICE PLEASE READ CAREFULLY

**It is for your safety and tells you ways to make sure you are SAFE in your flat**

# WHAT SHOULD I DO IF FIRE BREAKS OUT?



## IF FIRE BREAKS OUT IN **YOUR FLAT...**

Keep calm, alert others in the flat then get out of the building and stay out. Walk quickly, do not run.



If possible, close doors behind you as you leave the building. Plan your escape route, make sure everyone knows where the stairs are.



Use the stairs



Not the lift



Get out of the building




**Once you are safely outside Call 999.**
These calls are free from any phone.
“Wait for the fire service”




## IF FIRE BREAKS OUT **ELSEWHERE** IN THE BUILDING...

**Call the fire service on 999**
– Never assume that someone else has done it, you could save someone’s life.



Stay in your flat unless otherwise directed by the fire service. You are usually safe to stay in your flat but leave if you feel unsafe or if your smoke alarm goes off. Take advice and directions given by the fire service.

# WHAT CAN I DO TO MAKE MY FLAT SAFE FROM FIRE?



**Test your smoke alarm every week**
Press the button on the cover and it should sound.
If it is not working ring the Repairs Contact Centre on ☎ 01792 635100, (if out of hours on ☎ 01792 521500.)



## COOKING



Check that ovens and cookers are turned off when not in use.



Avoid using chip pans and be careful with frying pans and hot oil



Use a thermostatically controlled deep fat fryer



Be careful, do not cook if you have been drinking or are tired.



## HEATERS

Ensure heaters are turned off properly.
Use a guard in front of an electric fire or gas fire.



Keep furniture and clothes away from heaters.

# WHAT CAN I DO TO MAKE MY FLAT SAFE FROM FIRE?



## CANDLES



**If you use candles put them out carefully.**
Do not leave them unattended when lit.



Take care where you put candles, keep away from curtains and other flammable materials. Do not put them on top of the television.



Use a proper candle holder



## NIGHT TIME



**Before going to bed** check ashtrays for cigarettes or pipes left burning and **never** smoke in bed



Switch off and unplug appliances

# WHAT CAN I DO TO MAKE MY FLAT SAFE FROM FIRE?



**GAS SAFETY** - Gas is safe for heating and cooking but if it leaks or an appliance is faulty it can be very dangerous. Only registered gas fitters can carry out repairs to gas appliances or connections.



If you smell gas ring the National Grid Emergencies on ☎ 0800 111 999 anytime, then call the Repairs Call Centre for Housing on ☎ 01792 635100, if out of hours call ☎ 01792 521500.



The Council services the heating systems in your home once a year. You must allow access to the gas engineer. If you haven't received a visit in the last year please phone to make an appointment. The work is free.



If you have your own gas appliances ensure they are serviced by a registered gas fitter.
For more information see the council website
www.swansea.gov.uk



No bottled gas cylinders should ever be used or stored in high rise flats.



**ELECTRICITY** - Only qualified electricians should fit sockets or alter the wiring in the home. Do not carry out DIY or allow others to do it for you. Before making any changes ask permission from the District Housing Office.



Don't overload electrical sockets



Warning signs include: hot plugs, a buzzing noise, scorch marks on plugs or sockets, a fishy smell from plugs or sockets, appliances going on/off and flickering lights. Report any faults to Repairs Contact Centre on ☎ 01792 635100 (out of hours ☎ 01792 521500).

# WHAT CAN I DO TO HELP KEEP THE COMMUNAL AREAS IN MY BLOCK OF FLATS SAFE FROM FIRE?

**Please remember that other people live in the building. Everyone is responsible for fire safety in the building and in their own home. Following these safety rules will help.**





Do not touch dry riser inlets on landings. It could cost lives if they are not working properly. If you see a dry riser vandalised, report it immediately to your local District Housing Office.



Do not leave rubbish, items of furniture, carpets or any items in any shared areas such as **landings** and **stairs.**



Do not park vehicles by the entrance to your block of flats or in keep clear areas. Access roads should be kept clear and are designed so fire engines can get as close as possible to deal with fires.



Do not smoke in communal areas in the building. This is against the law and can also lead to fire if cigarettes are not put out properly.




Do not wedge open fire doors. Keep them closed. They are there to stop fires spreading.



If you notice that a Fire Door is damaged or if fire exit signs are missing or damaged report it to your local District Housing Office.

**If you plan to make any changes to your property you should contact the District Housing Office before doing so as they may affect safety. It is also part of the Tenancy Agreement. Leaseholders also need to ask before changing their front doors or windows.**

# MORE INFORMATION

**If you want more information on fire safety or would like a free Home Fire Safety Check you can look at the following website:**

**www.mawwfire.gov.uk**



**For more information regarding your tenancy or block of flats:**

**www.swansea.gov.uk/housing**

**If you need to report a repair or damage**

**phone ☎ 01792 635100**

**(or if it's out of hours ☎ 01792 521500)**

**For other enquiries contact your local District Housing Office.**

**Do not worry...**

**Fires are rare but this information will be useful to you and your family if a fire does break out in your flat or block.**

Os ydych chi'n bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'ch eiddo, dylech gysylltu â'r Swyddfa Dai Ranbarthol cyn gwneud hynny oherwydd gall y newidiadau effeithio ar ddiogelwch. Mae hefyd yn rhan o'r Cytundeb Tenantiaeth. Rhaid i brydleswyr hefyd ofyn cyn newid eu drysau a'u ffenestri.

# MWY O WYBODAETH

Am ragor o wybodaeth am ddiogelwch tân neu os hoffech gael Gwiriad Diogelwch Tân yn eich cartref, ewch i'r wefan ganlynol:

**www.mawwfire.gov.uk**



Am fwy o wybodaeth am eich tenantiaeth neu floc fflatiau:

**www.abertawe.gov.uk/housing**

Os oes angen rhoi gwybod am atgyweiriad neu ddifrod, ffoniwch ☎ **01792 635100**
(neu ☎ 01792 521500 y tu allan i oriau swyddfa.)

Ar gyfer ymholiadau eraill, cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Ranbarthol leol

**Peidiwch â phoeni...**

**Mae tanau yn brin, ond bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi a'ch teulu os bydd tân yn dechrau yn eich fflat neu'r bloc.**

# BETH GALLAF EI WNEUD I DDIOGELU'R MANNAU CYMUNEDOL YN FY MLOC FFLATIAU RHAG TÂN?

**Cofiwch fod pobl eraill yn byw yn yr adeilad. Mae pawb yn gyfrifol am ddiogelwch tân yn yr adeilad ac yn eu cartref eu hunain. Bydd dilyn y rheolau diogelwch hyn yn gymorth.**





Peidiwch â chyffwrdd â mewnfeydd pibellau sych ar ben grisiau. Gallai hyn achosi marwolaethau os nad ydynt yn gweithio'n gywir. Os gwelwch un wedi'i ddifrodi, rhowch wybod i'ch Swyddfa Dai Ranbarthol ar unwaith.



Peidiwch â gadael sbwriel nac unrhyw beth mewn mannau cymunedol megis **grisiau** a **phen grisiau.**



Peidiwch â pharcio ceir neu faniau ger y mynediad i'ch bloc fflatiau neu mewn mannau cadwch yn glir. Bwriad heolydd mynediad yw caniatáu i injan dân ddod mor agos â phosib i ddelio â thanau.



Peidiwch â smygu mewn mannau cymunedol yn yr adeilad. Mae hyn yn erbyn y gyfraith a gall hefyd achosi tân os nad yw sigaréts yn cael eu diffodd.




Peidiwch â chadw drysau tân ar agor. Cadwch hwy ar gau. Maent yno i atal tanau rhag ymledu.



Os ydych chi'n sylwi bod Drws Tân wedi'i ddifrodi, neu fod arwyddion allanfa dân ar goll neu wedi'u difrodi, rhowch wybod i'ch Swyddfa Dai Ranbarthol leol.

# BETH GALLAF EI WNEUD I DDIOGELU FY FFLAT RHAG TÂN?



**DIOGELWCH NWY** - Mae nwy yn ddiogel ar gyfer gwresogi a choginio, ond os yw'n gollwng, neu os yw peiriant yn ddiffygiol, gall fod yn beryglus iawn. Dim ond gosodwyr peiriannau nwy cofrestredig all atgyweirio peiriannau neu gysylltiadau nwy.



Os gallwch arogli nwy, ffoniwch Argyfyngau Nwy y Grid Cenedlaethol ar ☎ 0800 11 999 unrhyw bryd, yna ffoniwch y Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau Tai a rhoi gwybod iddynt ar ☎ 01792 635100 neu ☎ 01792 521500 y tu allan i oriau swyddfa.



Mae'r cyngor yn gwasanaethu systemau gwresogi yn eich cartref unwaith y flwyddyn. Rhaid i chi ganiatáu mynediad i'r peiriannydd nwy. Os nad ydych chi wedi derbyn ymweliad yn y flwyddyn ddiwethaf, rhaid i chi ffonio i drefnu apwyntiad. Mae'r gwaith hwn am ddim.



Os oes gennych eich peiriannau nwy eich hunan, sicrhewch fod gosodwr nwy cofrestredig yn eu gwasanaethu. Am fwy o wybodaeth, gweler gwefan y cyngor www.abertawe.gov.uk



Ni ddylid byth defnyddio na storio silindrau nwy mewn fflatiau uchel



**ELECTRICITY** - Trydanwyr cymwys yn unig ddylai osod socedi neu newid gwifrau yn y cartref. Peidiwch â gwneud hyn eich hun, na gadael i rywun arall ei wneud. Cyn gwneud unrhyw newidiadau, gofynnwch am ganiatâd gan y Swyddfa Dai Ranbarthol.



Peidiwch â gorlwytho socedi trydan.



Cadwch lygad allan am y canlynol: plygiau cynnes, sŵn sïo, marciau llosgi ar blygiau neu socedi, arogl amheus o blwg neu soced, peiriant yn troi ymlaen ac yn diffodd, golau'n fflachio. Dylech roi gwybod i'r Ganolfan Cyswllt Atgyweirio am unrhyw nam drwy ffonio ☎ 01792 635100 (neu ☎ 01792 521500 y tu allan i oriau swyddfa).

# BETH GALLAF EI WNEUD I DDIOGELU FY FFLAT RHAG TÂN?



## CANHWYLLAU



**Os ydych yn defnyddio canhwyllau, diffoddwch hwy'n ofalus.** Peidiwch â'u gadael pan fyddant ynghyn heb ofalu amdanynt.



Cymerwch ofal wrth leoli canhwyllau - rhowch nhw'n ddigon pell oddi wrth lenni neu unrhyw ddefnyddiau fflamadwy eraill. Peidiwch â'u rhoi ar ben y teledu.



Defnyddiwch ddaliwr cannwyll iawn.



## Y NOS



**Cyn mynd i'r gwely,** gwiriwch flychau llwch am sigaréts neu bibau sy'n dal i losgi a pheidiwch **byth** â smygu yn y gwely.



Diffoddwch beiriannau a thynnu'r plwg

# BETH GALLAF EI WNEUD I DDIOGELU FY FFLAT RHAG TÂN?



**Profwch eich larwm tân bob wythnos.**
Pwyswch y botwm ar y gorchudd a dylai ganu.
Os nad yw'n gweithio'n iawn, ffoniwch y Ganolfan Cyswllt Atgyweirio ar ☎ 01792 635100, neu ☎ 01792 521500 y tu allan i oriau swyddfa.



**COGINIO**



Cadarnhewch fod ffyrnau a phoptai wedi'u diffodd pan na fyddant yn cael eu defnyddio.



Peidiwch â defnyddio padell sglodion a byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio padell ffrio ac olew poeth os yw'n bosib



Defnyddiwch offer ffrio dwfn sydd wedi eu rheoli'n thermostatig.



Peidiwch â choginio os ydych chi wedi bod yn yfed neu wedi blino.



**GWRESOGYDDION**

Sicrhewch fod gwresogyddion wedi'u diffodd yn iawn. Defnyddiwch gard o flaen tân nwy neu drydan.



Peidiwch â rhoi celfi na dillad yn agos at wresogyddion.

# BETH DYLWN I EI I'W WNEUD OS BYDD TÂN?



## OS BYDD TÂN YN DECHRAU YN **EICH FFLAT...**

Peidiwch â chynhyrfu, rhybuddiwch bobl eraill yn y fflat ac ewch allan o'r adeilad a pheidiwch â mynd yn ôl. Cerddwch yn gyflym, peidiwch â rhedeg.



Os yw'n bosib, caewch y drysau y tu ôl i chi wrth i chi adael yr adeilad. Meddyliwch am eich llwybr dianc a sicrhewch fod pawb yn gwybod lle mae'r grisiau.



Defnyddiwch y grisiau



Peidiwch â defnyddio'r lifft



Ewch allan o'r adeilad.




**Unwaith eich bod yn ddiogel y tu allan, ffoniwch 999.** Mae'r galwadau hyn am ddim o unrhyw ffôn. "Arhoswch am y gwasanaeth tân"




## OS BYDD TÂN YN DECHRAU **RHYWLE ARALL** YN YR ADEILAD...

**Ffoniwch y gwasanaeth tân ar 999**
– peidiwch byth â chymryd yn ganiataol bod rhywun arall wedi gwneud hynny, gallech achub bywyd rhywun.



Arhoswch yn eich fflat oni bai eich bod yn cael cyfarwyddiadau gwahanol gan y gwasanaeth tân. Fel arfer bydd yn ddiogel i chi aros yn eich fflat ond ewch allan os ydych yn teimlo'n anniogel neu os bydd eich larwm mwg yn canu. Dilynwch y cyngor a'r cyfarwyddiadau a roddir gan y gwasanaeth tân.

**Cadwch hon i gyfeirio ati yn y dyfodol**

# MAE’R DAFLEN HON YN CYNNWYS GWYBODAETH BWYSIG DARLLENWCH HI’N OFALUS

**Mae er eich diogelwch chi ac yn dweud wrthych sut i sicrhau eich bod yn DDIOGEL yn eich fflat**

32599-13 DesignPrint

# Diogelwch Tân mewn Fflatiau Uchel



**MAE'R DAFLEN HON YN CYNNWYS GWYBODAETH BWYSIG DARLLENWCH HI'N OFALUS**

**Mae er eich diogelwch chi ac yn dweud wrthych sut i sicrhau eich bod yn DDIOGEL yn eich fflat**

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe